# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Elwy, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 7 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 8 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-2260



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................ 7

Ansawdd profiad y claf ........................................ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................ 12

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........................................ 18

4. Beth nesaf? ........................................ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........................................ 21

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........................................ 22

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................ 23

Atodiad C – Cynllun gwella ........................................ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Elwy, 1 Stryd y Capel, Abergele, Conwy, LL22 7AW, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 8 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar gyfer sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gan y practis amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r offer i gyd yn lân, yn daclus ac yn drefnus, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan
- Arddangoswyd proses drwyadl gan y staff ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio gyda’r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a’r cleifion
- Roedd gan y staff fynediad da at hyfforddiant a chymorth gan y tîm practis ehangach.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Selio'r llawr yn y ddwy feddygfa ac o amgylch yr arwynebedd gwaith yn yr ystafell ddadheintio
- Addasu gosodiad tymheredd un o'r boeleri
- Gosod cyfanelwr petryal i'r peiriant pelydr-X yn ystafell driniaeth 2

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Elwy yn rhan o grŵp Mydentist ac mae'n darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Conwy . Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy’n cynnwys y rheolwr practis, tri deintydd, dwy nyrs ddeintyddol, dwy nyrs dan hyfforddiant a dau dderbynnydd.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod staff y practis yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn gyffredinol yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 21 o holiaduron wedi'u cwblhau; derbyniwyd cymysgedd dda o holiaduron gan gleifion – oddi wrth gleifion cymharol newydd yn y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion ers llai na dwy flynedd) yn ogystal ag oddi wrth gleifion hirdymor y practis (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion am fwy na dwy flynedd).

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"I fod yn onest, does gen i ddim unrhyw gyngor i'w roi oherwydd mae'r gwasanaeth rwy'n ei dderbyn o safon uchel"

"Dydw i erioed wedi cael unrhyw broblemau ers ymuno â'r practis"

"Gwell system apwyntiadau"

### Cadw'n iach

Gwelsom fod y practis yn arddangos amrywiaeth o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Roedd hyn er mwyn helpu i hybu'r angen i gleifion gymryd gofal o'u hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos drwy'r practis a oedd yn cadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiadur bod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Sylwom fod y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gyfeillgar, barchus a phroffesiynol. Roedd y staff yn ymddangos fel tîm bach, cyfeillgar a gwelsom ryngweithiadau cwrtais rhwng y cleifion â nhw. Roedd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Gwnaeth staff gadarnhau eu bod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion er mwyn iddynt drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol, i ffwrdd o’r cleifion eraill gan ddefnyddio swyddfa rheolwr y practis, ymhell wrth gleifion eraill neu wrth ddefnyddio swyddfa rheolwr y practis neu un o'r ystafelloedd triniaeth eraill pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i’r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth oedd ar gael. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd mwy na thraean o'r cleifion nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Roedd gwybodaeth i gleifion am wasanaethau'r practis ar gael ar ffurf rhestr brisio a oedd ar gael ar bosteri yn y practis ac ar wefan y practis. Cafodd cleifion eu hysbysu am brisiau penodol a oedd yn berthnasol i gynlluniau triniaeth unigol. Golygai hyn fod y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cleifion yn gwybod faint allai cost y driniaeth fod, a sut roedd costau yn cael eu cyfrifo.

Dywedwyd wrthym fod taflen wybodaeth y practis yn cael ei diweddaru.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhywfaint o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg; dywedodd mwyafrif y cleifion hyn wrthym nad oeddent byth yn gallu siarad â staff yn Gymraeg pan oeddent yn dymuno gwneud hynny.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis.

Er nad oedd unrhyw staff a oedd yn siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi ym mhractis Elwy, gwnaethom gadarnhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis drwy gael cymorth wrth siaradwyr Cymraeg staff eraill a gyflogir yn y practisau lleol eraill a reolir gan grŵp Mydentist.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses a ddefnyddir i roi gwybod i'r cleifion mewn da bryd am unrhyw oedi neu ohirio apwyntiadau a gwelsom bolisi'r practis a oedd yn ategu'r trefniant hwn.

Nodwyd cwynion gan gleifion yn yr holiaduron ynghylch y system apwyntiadau a oedd ar waith yn y practis, ac roedd rhai cleifion yn dweud wrthym fod eu hapwyntiadau yn cael eu canslo'n aml. Gwnaeth un claf y sylw canlynol yn yr holiadur:

"Roedd pedwar apwyntiad wedi cael eu canslo - angen gwella ar hyn os gwelwch yn dda"

Gwnaethom drafod oedi yn yr amseroedd apwyntiadau â rheolwr y practis a wnaeth esbonio bod hyn yn digwydd, yn bennaf, am nad oedd gan y practis ddigon o ddeintyddion. Fodd bynnag, ers cyflogi trydydd deintydd yn ddiweddar, roedd amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau yn lleihau. Cydnabuwyd bod mesurau pellach yn ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn ac roedd rheolwr y practis yn archwilio dulliau eraill o leihau'r rhestr aros.

Dywedodd bron i un rhan o dair o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddynt yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd problem ddeintyddol ar frys ganddynt.

Gwelsom fod rhif ffôn y gwasanaeth y tu allan i oriau wedi'i arddangos yn ffenest y dderbynfa ac yn y daflen wybodaeth, ger drws y brif fynedfa ac ar wefan y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Wrth adolygu sampl o gofnodion cleifion, gwnaethom ganfod bod ansawdd y nodiadau yn dda iawn. Roedd trafodaethau a oedd yn ymwneud â hanes cymdeithasol, alcohol a sgrinio ar gyfer canser yn cael eu cofnodi fel mater o drefn ac roedd cydsyniad i driniaeth yn cael ei roi a'i gofnodi yn ystod pob ymweliad.

### Hawliau pobl

Canfuom fod mynediad i'r practis ar gyfer pobl sydd ag anawsterau symudedd yn wael. Roedd gris yn arwain at y practis o'r brif stryd a hefyd grisiau y tu mewn i'r practis yn arwain at y ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear. Roedd y practis ar y llawr cyntaf, ac roedd mynediad ato trwy gyfrwng grisiau serth. Dywedwyd wrthym gan reolwr y practis y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i bobl sydd ag anghenion symudedd i gael eu gweld yn un o'r practisau lleol eraill a oedd yn eiddo i grŵp Mydentist.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd naw allan o'r 21 o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gwyno ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith ar gyfer triniaeth breifat a thriniaeth y GIG. Arddangosir gwybodaeth i gleifion ar sut i fynegi pryder neu gŵyn yn y dderbynfa.

Cawsom ein hysbysu mai ychydig iawn o gwynion a gafwyd gan y practis a bod y rhain yn cael eu datrys yn y man cychwyn, lle bo'n briodol. Roedd cofnod o'r holl gynion yn cael eu cadw. Roedd hyn yn galluogi staff i fonitro a mynd i'r afael ag unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin yn y cwynion a dderbyniwyd.

Dywedodd bron i ddwy ran o dair o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis wedi ceisio canfod eu barn am y practis deintyddol, trwy holiaduron cleifion er enghraifft.

Gwelsom sampl o holiaduron adborth cleifion a gwblhawyd yn ddiweddar. Ar y cyfan roedd ymatebion yn gadarnhaol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd safle'r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Canfuom fod proses adolygu gan gymheiriaid cadarn ar waith.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi ei gynnal mewn cyflwr da iawn, tu mewn a thu allan, a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, naill ai'n lân iawn neu'n weddol lân.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf yn unol ag argymelliadau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[1].

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel mewn ardal gaeedig tra'u bod yn aros i gael eu casglu gan y cwmni contractio.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[2] Fodd bynnag, canfuom fod angen selio'r llawr o amgylch yr ymylon ac roedd yr ymyl silicon o amgylch yr arwynebedd gwaith lle'r oedd y sinciau, wedi dod yn rhydd.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da.

Roedd yr arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd lloriau'r ystafelloedd triniaeth wedi'u selio wrth eu hymylon. Fe'n hysbyswyd ni hefyd gan y rheolwr y byddai gorchudd llawr newydd yn cael ei osod yn yr ystafelloedd triniaeth yn y dyfodol agos. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylai ymylon y llawr gael ei selio er diogelwch er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes heintio.

---

[1] http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg.htm

[2] Mae’r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis ddefnydd o ddau beiriant awtoclaf[3] a gwelsom dystysgrifau arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd offer yn cael eu cadw mewn bagiau/cynhwysyddion lliwiau penodol wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Roedd y dyddiadau erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu offer (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi ar y pecynnau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ym mis Gorffennaf 2017 er mwyn nodi meysydd i'w gwella a datblygiadau fel rhan o'r gweithgarwch monitro sicrwydd ansawdd. Lle roedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi gan y practis, gwelsom ei fod wedi cymryd camau i roi sylw i'r materion o dan sylw.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth ar ffurf dogfennau i ddangos bod asesiad risg legionella wedi'i gynnal. Rhaid cynnal asesid risg legionella er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol 01-05.

Gwnaethom edrych ar gofnodion monitro misol tymheredd y dŵr poeth a chanfod bod angen addasu un boeler er mwyn sicrhau bod tymheredd y dŵr yn yr ystafelloedd yn cyrraedd y tymheredd cywir ar gyfer gosodiadau clinigol, yn unol â Memorandwm Technegol 01-05.

[3]Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau, drwy'u trin ag ager dirlawn ar bwysedd uchel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Roedd angen selio'r ymylon yn yr ystafell ddadheintio a'r arwynebedd gwaith lle'r oedd y ddwy sinc er mwyn galluogi glanhau effeithiol i leihau'r risg o groes-heintio.

Rhaid selio ymylon y lloriau yn y ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes heintio.

Rhaid cynnal asesiad legionella er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.

Mae angen addasu'r boeler er mwyn sicrhau bod tymheredd y dŵr yn yr holl ystafelloedd yn cydymffurfio â'r paramedrau disgwyliedig ar gyfer y gosodiadau clinigol, yn unol â Memorandwm Technegol 01-05.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwymp). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiad dod i ben.

Roeddem yn gallu gweld cofnodion i ddangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn adfywio cardio-pwlmonaidd o fewn y deuddeg mis diwethaf.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd cofnodion hyfforddiant yn dangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith a oedd yn nodi'r camau i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â nhw, pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch diogelu.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr offer yn ystafell driniaeth y practis, a nodi eu bod yn lân ac yn cael eu cynnal i safon uchel.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant cyfoes diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio, ac yn bodloni'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd cyfanelwr siâp petryal[4] ar y peiriant pelydr-X yn ystafell driniaeth dau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis osod cyfanelwr siâp petryal i'r peiriant peyldr-X yn ystafell driniaeth 2.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrywiaeth o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau, archwiliadau deintyddfa a chasglu adborth gan gleifion er mwyn helpu i adnabod meysydd i'w gwella. Roedd gwiriadau hefyd ar y gweill ar offer er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithlon.

Trwy drafod â staff, fe'n hysbyswyd ni bod adolygiadau gan gymheiriaid rhwng staff clinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion. Yn ogystal â hyn, roedd Rheolwr Cymorth Clinigol a gyflogwyd gan grŵp Mydentist yn ymgymryd ag archwiliadau rheolaidd ac adroddiadau ar gymheiriaid yn y practis ac ar gael i gynnig canllawiau a chyngor i staff.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

[4]Mae cyfanelwr siâp petryal yn lleihau cyfanswm yr ymbelydredd y mae'r claf yn cael ei amlygu iddo yn ystod gweithdrefnau peylydr-X intraoral deintyddol drwy leihau gwasgariad yr ymbelydredd a chanolbwyntio ar belydr yr ymbelydredd i mewn i'r un siâp petryal â'r synhwyrydd neu'r ffilm sy'n cael ei ddefnyddio.

Cawsom ein hysbysu bod gan y practis ei ddull datblygu tîm ei hun, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae ei waith yn galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac ar ffurf papur. Gwnaethom ganfod bod prosesau addas ar waith i sicrhau diogelwch yr wybodaeth ar bapur ac ar y cyfrifiadur.

### Cadw cofnodion

Gwelsom sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Roedd y cofnodion gofal i gleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol ynghylch trafodaethau am opsiynau, costau, risgiau, buddion a sut roedd caniatâd cleifion yn cael ei gasglu.  Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaethau a thystiolaeth wedi'i chofnodi i ddangos bod sgrinio ar gyfer canser a chyngor ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu wedi'i ddarparu.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn un a oedd yn cael ei redeg yn dda iawn, gydag ymrwymiad cryf i ddarparu ansawdd uchel a rhoi sylw i fanylion.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch aelodau staff y practis, a'u cydweithwyr. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd Practis Deintyddol Elwy yn cael ei reoli gan reolwr y practis. Canfuom fod rheolwr y practis yn drefnus a rhagweithiol yn ei ffordd o weithio. Pan welsom feysydd y gellir eu gwella, roedd rheolwr y practis yn dangos parodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r meysydd hynny yn ddiymdroi.

Gwelsom fod y staff yn gwbl ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod y cyfarfodydd tîm a'r digwyddiadau hyfforddiant mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd cofnodion manwl yn cael eu creu.

Gwelsom fod amrediad o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal, yn ôl yr angen, cyn i bobl ddechrau ar eu cyflogaeth.

Roedd cofnodion archwilio'n dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi.

Roedd cofnodion yn dangos bod staff yn derbyn gwerthusiad blynyddol o'u perfformiad, a oedd yn cael ei gefnogi gan oruchwyliaeth a chyfarfodydd cymorth bob chwarter.

Sylwom fod y deintyddion a’r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer a bod yswiriant indemnio wedi ei drefnu.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag Hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a’u hunain rhag haint.

Roedd y deintyddion yn y practis yn darparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd ar gyfer y deintyddion sy'n gweithio yn y practis.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gawsant eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu cyn lleied â phosibl ar gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Elwy

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dim materion sicrwydd dybryd wedi'u nodi. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Elwy

## Dyddiad yr arolygiad: 7 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | |
| Roedd yr ymylon yn yr ystafell ddadheintio a'r arwynebedd gwaith lle'r oedd y ddwy sinc angen eu selio er mwyn galluogi glanhau effeithiol a lleihau risg i leihau'r perygl o groes-heintio.<br><br>Rhaid i ymylon y lloriau yn y ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear gael eu selio er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes-heintio. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (6)<br><br>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a | Hysbyswyd yr adran Gyfleustodau a byddant yn ymweld â'r safle cyn hir i wirio. | | Un mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid ymgymryd ag asesiad risg legionella er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.<br>Mae angen addasu'r boiler er mwyn sicrhau bod tymheredd y dŵr yn yr adeiladau allanol o fewn paramedrau disgwyliedig ar gyfer lleoliadau clinigol, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd. | Dadheintio<br>Safon y Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Mae tymheredd y boiler wedi cael ei addasu. | | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis osod cyfanelwr siâp petryal i'r peiriant peyldr-X yn ystafell driniaeth 2. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14. (3) (a) (b)<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999<br>Rheoliadau Ymbelydredd | Wrth i'r adolygwyr adael yr adeilad, canfuom y cyfanelwr yn y drôr yn ystafell driniaeth 2 | | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000<br>2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):Sarah Griffiths**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 04/12/2017**